Swansea University
Prifysgol Abertawe

Swansea Employability Academy
Academi Cyflogadwyedd Abertawe

UNLOCKING THE WORLD'S POTENTIAL

# EMPLOYER GUIDE TO HIRING INTERNATIONAL GRADUATES


swan.ac.uk/sea

employability@swansea.ac.uk



Funded by:
UKCISA UK Council for International Student Affairs
#WeAreInternational
Grants scheme


Find out more

# WHAT INTERNATIONAL TALENT CAN BRING TO YOUR BUSINESS

**According to research conducted by the Federation of Small Businesses in August 2022, 80% of small enterprises had encountered challenges in the previous year when seeking candidates with suitable skills. At the same time the Higher Education Statistics Agency estimated that international students make up 22% of the student population in the UK. With support from your local university, international graduates can meet your business' talent needs.**

The best way to find international graduates it to start working with them while they're still students. International students are particularly engaged in employability initiatives and their participation in internship programmes, careers fairs and employer events is high.

When attending university events, be open with students about the graduate opportunities available in your organisation.

**Employer events and work-based learning opportunities with Swansea University**



When advertising roles, clarity is the key to finding international talent. Many roles fail to receive interest from international graduates due to ambiguity around eligibility. Including a fair hiring statement with information for international graduates on the visa types through which you hire can make a huge difference to international applicants. If you'd like support writing adverts that will attract international graduates, our experienced team of employability professionals would love to help. Email us:

**employmentzone@swansea.ac.uk**

Lastly, consider the practical benefits to hiring international graduates. By their very nature, they have a global mindset and may be fluent not only in other languages but other cultures, broadening your market insights. Diversity in a team is proven to strengthen and enrich a workplace. Thanks to their wide-ranging experiences, international graduates often have excellent resilience and adaptability.

# ROUTES AND VISAS

**Uncertainty around the processes for hiring international graduates should not be a barrier to filling skills shortages in your organisation. A good awareness of the visa choices available to employers and individuals will empower you to have confident conversations with international students and graduates and hire the right candidates for your vacancies. There are two options available to employers looking to hire graduates who have completed university courses in the UK, and each has benefits and limitations.**

## SKILLED WORKER VISA

Sponsored, skilled-worker visas are seen as the gold standard by many international graduates as the cost of the visa is covered by the employer and the time graduates spend hired on this type of visa can count towards their indefinite leave to remain in the UK. Employers also benefit from exclusivity when hiring on the skilled-worker visa. Each visa only allows for work in one organisation and one role, meaning much less likelihood of losing talent to competitors.

- **This type of visa can be offered for up to 5 years**, can be extended indefinitely and can lead to settlement after 5 years.
- As the name implies, this visa is intended to meet the needs of employers experiencing skill shortages. While minimum salaries and skill levels apply, most graduate roles would be meet current government criteria.
- Employers who wish to hire via skilled-worker visas require a certificate of sponsorship. This can take a few months to be approved, so speak to an immigration lawyer well ahead of when you are hoping to hire.
- Sponsorship, visa, and legal fees for each skilled worker visa are currently estimated at **£3,500 - £5,000**.

## GRADUATE VISA

If you're not looking to sponsor individuals for roles in your organisation you can still hire international talent through the **Graduate Visa Route.** This visa, often referred to as the Post Study Work visa, is a flexible option for international graduates who have completed a degree or relevant qualification. Employers do not need to provide sponsorship.

For this visa, graduates pay their own visa fees and at time of writing these come to just under £2,000. The graduate visa allows individuals to work in the UK for two years after their course finishes, extended to three for PhD graduates. They aren't required to stay with any particular employer or role, and most graduates use this time to try to find a job that can lead to a sponsored role. Employers on the other hand can use this time to test the viability of a candidate before deciding whether to offer a Skilled Worker Visa.

*Disclaimer: Visa information changes on a regular basis. Check gov.uk to ensure you have the most up-to-date information.*

# RESOURCES

**Employment Zone Digital Jobs Board**

Platform to hire Swansea University students and recent graduates.

**International Student Employability Group**

Offering a more detailed guide to employing international students.

**UK Council for International Student Affairs**

Charity offering support to those who work with international students.

**Student Circus**

Platform dedicated to hiring international students.

**UK Government information on Visas**

The source for official information from the government.



# ADNODDAU

**Hysbysfwrdd Swyddi Digidol y Parth Cyflogaeth**

Platfform am ddim i gyflogi myfyrwyr a graddedigion diweddar o Brifysgol Abertawe.

**Grŵp Cyflogadwyedd Myfyrwyr Rhyngwladol**

Grŵp sy'n cynnig arweiniad manylach ar gyflogi myfyrwyr rhyngwladol.

**UKCISA (Cyngor Materion Myfyrwyr Rhyngwladol y DU)**

Elusen sy'n cynnig cymorth i'r rhai hynny sy'n gweithio gyda myfyrwyr rhyngwladol.

**Student Circus**

Platfform pwrpasol ar gyfer cyflogi myfyrwyr rhyngwladol.

**Gwybodaeth gan Lywodraeth y DU am Fisâu**

Y ffynhonnell gwybodaeth swyddogol gan y llywodraeth.



# LLWYBRAU A FISÂU

**Ni ddylai ansicrwydd ynghylch prosesau cyflogi graddedigion rhyngwladol eich rhwystro rhag llenwi bylchau o ran sgiliau yn eich sefydliad. Bydd ymwybyddiaeth dda o'r fisâu sydd ar gael i gyflogwyr ac unigolion yn eich grymuso i sgwrsio'n hyderus â myfyrwyr a graddedigion rhyngwladol a chyflogi'r ymgeiswyr cywir i'ch swyddi gwag. Mae dau opsiwn ar gael i gyflogwyr sydd am gyflogi graddedigion sydd wedi cwblhau cyrsiau mewn prifysgolion yn y DU, ac mae gan y ddau ohonynt gryfderau a gwendidau.**

## FISA I WEITHWYR CREFFTUS

Mae llawer o raddedigion rhyngwladol yn gweld Fisâu i Weithwyr Crefftus a noddir fel y dewis delfrydol gan fod y cyflogwr yn talu am gost y fisa ac y gall yr amser y mae graddedigion yn ei dreulio wrth gael eu cyflogi ar y math hwn o fisa gyfrif tuag at ganiatâd amhenodol iddynt aros yn y DU. Mae cyflogwyr hefyd yn elwa ar gyfyngiadau wrth gyflogi rhywun ar y Fisa i Weithwyr Crefftus. Mae pob fisa'n caniatáu i rywun weithio i un sefydliad ac mewn un rôl yn unig, gan olygu bod y tebygolrwydd o golli gweithwyr dawnus i gyflogwyr eraill yn llawer llai.

- **Gellir cynnig y math hwn o fisa am hyd at bum mlynedd,** gellir ei estyn am gyfnod amhenodol a gall arwain at statws preswylydd sefydlog ar ôl pum mlynedd.
- Fel y mae'r enw'n ei awgrymu, bwriad y fisa yw diwallu anghenion cyflogwyr sydd am lenwi bylchau o ran sgiliau. Er bod isafswm cyflogau a lefelau sgiliau'n berthnasol, byddai'r rhan fwyaf o rolau i raddedigion yn bodloni meini prawf presennol llywodraeth y DU.
- Mae angen tystysgrif nawdd ar gyflogwyr sydd am gyflogi pobl drwy'r Fisa i Weithwyr Crefftus. Gall hyn gymryd ychydig fisoedd i'w chymeradwyo, felly siaradwch â chyfreithiwr mewnfudo ymhell cyn i chi obeithio cyflogi rhywun.
- Amcangyfrifir bod nawdd, fisa a ffïoedd cyfreithiol ar gyfer pob Fisa i Weithwyr Crefftus yn costio rhwng **£3,500 a £5,000** ar hyn o bryd.

## FISA GRADDEDIGION

Os nad ydych chi am noddi unigolion ar gyfer rolau yn eich sefydliad, gallwch gyflogi dawn ryngwladol o hyd drwy'r **Llwybr Fisa Graddedigion.** Mae'r fisa hon, y cyfeirir ati'n aml fel y Fisa Gwaith Ôl-astudio, yn opsiwn hyblyg i raddedigion rhyngwladol sydd wedi cwblhau gradd neu gymhwyster perthnasol. Nid oes angen i gyflogwyr gynnig nawdd.

Mae graddedigion yn talu eu ffïoedd eu hunain am y fisa hon, sy'n costio ychydig yn llai na £2,000 ar hyn o bryd. Mae'r fisa graddedigion yn caniatáu i unigolion weithio yn y DU am ddwy flynedd ar ôl i'w cwrs ddod i ben. Estynnir hyn i dair blynedd ar gyfer graddedigion PhD. Nid oes rhaid iddynt aros gyda chyflogwr penodol nac aros yn yr un swydd, ac mae'r rhan fwyaf o raddedigion yn defnyddio'r amser hwn i geisio dod o hyd i swydd a all arwain at rôl a noddir. Ar y llaw arall, gall cyflogwyr ddefnyddio'r amser hwn i brofi cymhwysedd ymgeisydd cyn penderfynu a ddylid cynnig Fisa i Weithwyr Crefftus.

*Ymwadiad: Mae gwybodaeth am fisâu yn newid yn rheolaidd. Ewch i gov.uk i sicrhau bod gennych yr wybodaeth ddiweddaraf.*

# YR HYN Y GALL DONIAU YMGEISWYR RHYNGWLADOL EI YCHWANEGU AT EICH BUSNES

**Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach ym mis Awst 2022, roedd 80% o fusnesau bach wedi wynebu heriau yn ystod y flwyddyn flaenorol wrth chwilio am ymgeiswyr â sgiliau addas. Ar yr un pryd, amcangyfrifodd yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch fod 22% o boblogaeth myfyrwyr y DU yn fyfyrwyr rhyngwladol. Gyda chymorth eich prifysgol leol, gall doniau graddedigion rhyngwladol ddiwallu anghenion eich busnes.**

Y ffordd orau o ddod o hyd i raddedigion rhyngwladol yw dechrau gweithio gyda hwy pan fyddant yn dal i fod yn fyfyrwyr. Mae mentrau cyflogadwyedd o ddiddordeb penodol i fyfyrwyr rhyngwladol ac mae eu cyfranogiad mewn rhaglenni interniaethau, ffeiriau gyrfaoedd a digwyddiadau i gyflogwyr yn uchel. Wrth fynd i ddigwyddiadau mewn prifysgolion, byddwch yn agored wrth drafod â myfyrwyr y cyfleoedd sydd ar gael i raddedigion yn eich sefydliad.

**Digwyddiadau cyflogwyr a chyfleoedd dysgu sy n seiliedig ar waith gyda Phrifysgol Abertawe**



Wrth hysbysebu rolau, eglurder yw'r peth allweddol er mwyn dod o hyd i ymgeiswyr rhyngwladol dawnus. Mae llawer o rolau'n methu denu diddordeb graddedigion rhyngwladol oherwydd amwysedd ynghylch cymhwysedd. Gall cynnwys datganiad cyflogi teg â gwybodaeth i raddedigion rhyngwladol am y mathau o fisa y gallwch eu defnyddio i gyflogi pobl wneud gwahaniaeth anferth i ymgeiswyr rhyngwladol. Os hoffech gael cymorth wrth ysgrifennu hysbysebion a fydd yn denu graddedigion rhyngwladol, byddai ein tîm profiadol o weithwyr cyflogadwyedd proffesiynol wrth eu boddau'n helpu.
E-bostiwch:

employmentzone@abertawe.ac.uk

Yn olaf, ystyriwch fuddion ymarferol cyflogi graddedigion rhyngwladol. Wrth eu natur, mae ganddynt feddylfryd byd-eang a gallant ddeall diwylliannau eraill, yn ogystal ag ieithoedd eraill, gan ehangu eich gwybodaeth am y farchnad. Profwyd bod amrywiaeth mewn tîm yn cryfhau ac yn cyfoethogi gweithleoedd. Diolch i'w profiadau eang, mae gan raddedigion rhyngwladol wytnwch a hyblygrwydd ardderchog yn aml.

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Swansea Employability Academy
Academi Cyflogadwyedd Abertawe

RHYDDHAU POTENSIAL Y BYD

# CANLLAW I GYFLOGWYR YNGHYLCH CYFLOGI GRADDEDIGION RHYNGWLADOL

Rhagor o wybodaeth

Funded by: UKCISA UK Council for International Student Affairs
#WeAreInternational Grants scheme

www.swansea.ac.uk/cy/cyflogadwyedd

employability@abertawe.ac.uk